

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr gan  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebo:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg .....	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiad .....	6
5.	Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig .....	9
6.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .....	11
7.	Llywodraethu.....	13
8.	Ymgysylltiad.....	13
9.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig .....	14

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Diben

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

# 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed 24 arolygiad neu ymweliad gan AGIC mewn lleoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 3 arolygiad o ysbyty, yr oedd un ohonynt yn adolygiad dilynol
- 4 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 7 arolygiad o bractisau deintyddol, yr oedd un ohonynt yn arolygiad dilynol
- 3 arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu
- 3 ymweliad y Ddeddf Iechyd Meddwl
- 2 arolygiad o unedau iechyd meddwl, yr oedd y ddau yn arolygiadau dilynol
- 1 arolygiad mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- 1 adolygiad ar y cyd

# 3. Negeseuon allweddol

Yn gyffredinol, roedd yr arolygiadau a wnaed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi bod y gofal a ddarperir i gleifion yn garedig, yn dosturiol ac yn effeithiol a chaiff ei ddarparu gan staff brwdfrydig ac ymrwymedig. Bu i'n gwaith dynnu sylw at y materion canlynol, efallai y bydd angen talu sylw pellach iddynt.

- Mae angen gwneud gwelliannau yn ymwneud ag ailgyfeirio amserol a phrosesu asesiadau'r Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid, gan fod y thema hon wedi codi'n gyson dros sawl arolygiad.
- Mae angen cryfhau hyfforddiant staff o ran y Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

- Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod y dogfennau'n adlewyrchu dull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Yn gyffredinol, roedd ein harolygiadau o bractisau cyffredinol a deintyddol yn gadarnhaol, a gwelsom ddogfennau cleifion o safon uchel yn gyson.
- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r meysydd yr oedd angen eu gwella yn ystod arolygiad 2015 o Ysbyty Penrhos Stanley.
- Yn gyffredinol, roedd cleifion yn gadarnhaol iawn ynghylch safon y gofal a'r driniaeth a ddarperir iddynt, ac roedd y staff yn ymrwmo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

## 4. Canfyddiadau'r arolygiad

Yn ystod 2016-17, gwnaeth AGIC waith amrywiol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae nifer o themâu allweddol wedi'u hamlygu drwy wneud y gwaith eleni. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

### Arolygiadau o ysbytai

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg yn ystod arolygiadau ysbyty 2016-17:

Arolygwyd Ysbyty Treffynnon (Ward Ffynnon A) ac Ysbyty Glannau Dyfrdwy (Ward Branwen a Gladstone) gan AGIC yn ystod mis Tachwedd 2016. Canfuwyd gennym fod cleifion yn y ddau ysbyty yn cadarnhau eu bod yn hapus â'r gofal a ddarperir gan y timoedd o staff. Gwelsom hefyd fod staff yn gwrtais tuag at gleifion, a'u bod yn eu trin â pharch a thosturi. Gwelsom fod timoedd y wardiau yn ymrwmo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom fod angen mynd i'r afael â rhai materion amgylcheddol, a bod angen gwneud gwelliannau ynghylch agweddau ar reoli meddyginiaethau. Canfuwyd gennym hefyd fod y staff yn disgrifio'r gofal a ddarperir ganddynt yn ofal unigol ac yn ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ond nid oedd y cofnodion gofal yn adlewyrchu hyn yn llawn. Yn arwyddocaol, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd ynglŷn â'r oedi wrth wneud asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid.

Arolygwyd Adran Argyfwng Ysbyty Glan Clwyd gan AGIC yn ystod mis Tachwedd 2016. Dywedodd y bobl y buom yn siarad â nhw eu bod yn hapus ar y cyfan â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir gan y timoedd o staff, a bu iddynt gydnabod pa mor brysur oedd y staff. Gwelsom hefyd arweinyddiaeth feddygol a nyrsio gref yn yr adran, roedd perthnasau proffesiynol da, ac roedd pawb yn

cyfathrebu'n dda. Roedd tîm rheoli safle'r ysbyty hefyd yn cynnig cefnogaeth ar y safle.

Fodd bynnag, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith gennym yn ymwneud â chleifion nad oedd â bandiau adnabod ar eu garddyrnau, gweinyddu cyffuriau a reolir, oedi wrth ragnodi meddyginiaethau, a chleifion oedd mewn perygl o ddatblygu manau o bwysedd. Yn ogystal, gwnaeth ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad ddangos i ni nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal. Nodwyd gwelliannau hefyd yn ymwneud â dealltwriaeth a gwybodaeth y staff o'r Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid. Ar yr olwg gyntaf, er bod yr adran yn darparu brysbennu a gofal mewn argyfwng sy'n ddiogel ac effeithiol, nid oedd yn darparu'r un lefel o ofal yn Uned Arsylwi'r Adran Argyfwng. Felly mae angen ystyried sut y mae'r adran yn asesu'n effeithiol ac yn rheoli risgiau ar gyfer cleifion sy'n aros yn hirach na'r disgwyl.

### lechyd meddwl

Arolygwyd Uned Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd, gan AGIC ym mis Rhagfyr 2016. Gwelsom fod y cleifion yn hapus â'r gofal, a bu i ni weld y staff a'r cleifion yn rhyngweithio'n ofalgar ac yn gadarnhaol â'i gilydd. Bu i'r staff ymgysylltu'n dda â'r broses arolygu, a dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rôl a'u datblygiad personol. Fodd bynnag, canfuwyd materion gennym yn ymwneud â'r trefniadau yn eu lle i alluogi cleifion i fynd at feddyg teulu. Roedd hefyd materion yn ymwneud â'r ystad yn bodoli o hyd, ac maent wedi bod yno ers cyfnod hir. Gwelsom hefyd fod angen gwneud gwelliannau o ran darparu therapi galwedigaethol er mwyn galluogi gweithgareddau yn y gymuned a thu allan i'r ward. Roedd angen gwneud gwelliannau wrth gwblhau a threfnu'r dogfennau a oedd yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a'r cynlluniau gofal a thriniaeth – roeddem o'r farn bod angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'i systemau llywodraethu i sicrhau ei fod yn adnabod ac uwchgyfeirio mewn da bryd unrhyw faterion a oedd yn ymwneud ag ansawdd neu ddiogelwch.

Ym mis Chwefror 2017, arolygwyd Ysbyty Cefni gan AGIC. Roedd hwn yn arolygiad cadarnhaol ar y cyfan, a bu i'r cleifion a'r perthnasau y buom yn siarad â nhw ganmol ansawdd y gofal a ddarperir. Gwelsom hefyd y staff yn trin y cleifion â pharch a thosturi. Darparwyd y gofal mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio ar y claf yn unigol, ac roedd y cofnodion gofal yn adlewyrchu'r dull hwn o ddarparu gofal. Roedd angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod rhai o'r dogfennau a gynhelir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gyson ac yn fanwl gywir. Gwelsom hefyd broblemau'n codi o ran y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a phrosesu atgyfeiriadau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn amserol.

## Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Roedd ein harolygiad o Ganolfan Trin Canser Gogledd Cymru, Ysbyty Glan Clwyd, yn gadarnhaol. Canfuwyd gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnal yn dda, gyda gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig cynhwysfawr yn eu lle. Roedd cofnodion hyfforddiant yn cael eu cynnal ac roeddent ar gael yn ystod ein harolygiad. Gwelsom arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol gan aelodau o staff uwch. Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau clir o adrodd ac atebolrwydd o ran y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

## Practisau Cyffredinol

Ar y cyfan, roedd ein canfyddiadau o arolygu practisau cyffredinol yn gadarnhaol. Gwelsom gofnodion cleifion o safon uchel yn gyson, ac roedd trefniadau clir yn eu lle yn y rhan fwyaf o bractisau er mwyn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd practisau wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion. Bu i un thema benodol godi yn ystod ein harolygiadau, sef bod angen i bractisau sicrhau bod cyfleusterau digonol yn nerbynfeydd y practisau er mwyn i gleifion allu cynnal trafodaethau preifat neu gyfrinachol.

## Deintyddol

Cwblhawyd 12 arolygiad mewn practisau deintyddol sy'n darparu triniaeth y GIG gennym. Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn ein harolygiadau:

- Yn y rhan fwyaf o arolygiadau, nododd AGIC fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n dda
- Yn y rhan fwyaf o arolygiadau, nododd AGIC fod digon o gyfleusterau yn y practisau, a'u bod i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Yn y rhan fwyaf o arolygiadau, gwelsom fod gweithdrefnau rheoli heintiau a diheintio rhagorol neu rai da yn eu lle
- Yn y rhan fwyaf o arolygiadau, bu i'r cleifion a fuom yn siarad â nhw ddweud eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad deallus ynghylch eu triniaeth
- Mewn rhai arolygiadau, canfuwyd gennym fod angen cryfhau rhai trefniadau o ran diogelu
- Mae angen i rai practisau sicrhau eu bod yn fwy clir wrth ddweud wrth gleifion bod modd iddynt godi pryder ynghylch eu triniaeth, a'r ffordd o wneud hyn.



## Anableddau dysgu

Yn ystod 2016-17, gwnaed tri arolygiad o wasanaethau anableddau dysgu gan AGIC, ac roeddent yn cynnwys uned breswyl ac unedau asesu a thrin. Ysgrifennwyd un adroddiad o ganlyniad i'r tri arolygiad hyn.

Canfuwyd yn ein harolygiadau fod staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a gwelsom y cleifion yn hapus ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Roedd perthnasau da rhwng y gwasanaethau a darparwyr gofal iechyd sylfaenol eraill fel meddygon teulu, nyrsys practis, deintyddion ac optegwyr. Gwelsom hefyd fod asesiadau cleifion a chynlluniau gofal yn fanwl ac yn cael eu cofnodi'n amserol.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hadolygu mewn ffordd amserol i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cydymffurfio â'r gyfraith o ran y Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid. Yn ogystal, gwelsom broblemau a oedd yn ymwneud â'r trefniadau o ran gwirio offer dadebru mewn argyfwng, ac mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ba offer y mae angen iddynt fod ar gael. Gwelsom hefyd fod angen i'r staff gael eu cefnogi o ran mynd i hyfforddiant sy'n ofynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae angen i gynllunio darpariaeth y gwasanaeth fod yn unol â'r arfer gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod y staff uwch yn ymgysylltu'n dda, a'u bod yn dangos eu bod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau ar sail yr arolygiadau.

## 5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau arbennig nac ymchwiliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod 2016-17.

### Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig<sup>1</sup> o wasanaethau iechyd y GIG i bobl sydd ag anableddau dysgu yng Nghymru. Diben yr

---

<sup>1</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf?lang=cy>

adolygiad oedd nodi cryfderau cyffredinol a meysydd y mae angen eu gwella, er mwyn gwneud gwelliannau i fyrddau iechyd. Nododd hefyd arferion da, i gefnogi gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd ag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

- Ar y cyfan, roedd ein canfyddiadau am y gwasanaethau a ddarperir gan dimoedd iechyd anableddau dysgu cymunedol yn gadarnhaol
- Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau sylweddol mewn sawl maes yng ngwasanaethau preswyl y GIG i bobl sydd ag anableddau dysgu
- Gwelsom fod pobl fel arfer yn derbyn gofal unigol da gan staff a oedd yn gwneud eu gorau i ofalu am y cleifion
- Nid oedd y gofal i gleifion yn aml yn cael ei ategu gan reolaeth a threfniadau staffio da.

Mae angen i'r holl fyrddau iechyd ystyried diben eu lleoliadau preswyl GIG i bobl sydd ag anableddau dysgu, ac ystyried ai gofal iechyd a ddarperir yn y lleoliadau hyn yn unig. Os nad hyn, dylai'r byrddau iechyd ystyried a fyddai model cymdeithasol o ofal yn fwy priodol.

### **Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16**

Cyhoeddwyd adroddiad thematig<sup>2</sup> o Wasanaethau Offthalmoleg yn ystod 2016-17 gan AGIC. Diben yr adolygiad oedd edrych ar ffiniau gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn archwilio'r ffordd yr oedd darparwyr yn cynnig eu gwasanaethau a'u datblygu. Bu i'r adolygiad ganolbwyntio ar Ddirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, o ganlyniad i'r peryglon sy'n gysylltiedig ag oedi i gleifion wrth dderbyn triniaeth. Dyma'r canfyddiadau allweddol o'n hadolygiad:

- Nid oes digon o gapasiti gan wasanaethau gofal llygaid yng Nghymru yng ngofal eilaidd i ateb y galw ar hyn o bryd
- Mae absenoldeb gweithwyr allweddol yn gallu achosi i rannau o'r llwybr gofal fethu â gweithio'n effeithiol, ac mae hyn yn cynyddu'r risg o beri niwed i gleifion y gellir ei osgoi

---

<sup>2</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf>

- Mae angen i fyrddau iechyd gael gwybodaeth well am y bwlch mewn capasiti galw er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau cynllunio gwybodus am y gweithlu
- Clywsom fod perthynas weithiol wael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd mewn rhai ardaloedd bwrdd iechyd wedi atal unrhyw ymdrechion i wella gweithio ar y cyd
- Gwelsom rai mentrau newydd yng Nghymru a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys cyflwyno chwistrellwyr nad oeddent yn feddygol. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd y mae'r mentrau hyn wedi'u datblygu a'u cyflwyno wedi bod yn gyson ar draws y bwrddau iechyd.

Mae angen i'r holl fyrddau iechyd ddeall bod angen datblygu gwasanaethau ymhellach er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael. Byddai hyn yn cryfhau isadeiledd a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal llygaid.

## 6. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

### Camau dilynol

Yn dilyn yr holl arolygiadau a wnaed gennym, cyflwynwyd adroddiad arolygu gennym yn nodi ein canfyddiadau. Yn y meysydd a nodwyd gennym fod angen eu gwella, mae angen i ni hefyd gael cynllun gwella gan y bwrdd iechyd neu bractis i nodi sut y maent yn bwriadu gwneud y gwelliannau. Ar gyfer rhai arolygiadau, byddwn yn cynnal arolygiad dilynol i sicrhau bod y cynlluniau gwella wedi'u gweithredu.

- Ysbyty Penrhos Stanley – Gwnaed cynnydd sylweddol gan y bwrdd iechyd wrth fynd i'r afael â'r meysydd yr oedd angen eu gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd yn yr ysbyty ym mis Tachwedd 2015. Roedd y rhan fwyaf o'r gwelliannau hyn wedi'u gwneud.

Gwelsom fod y cleifion yn hapus gyda'r gofal a ddarperir iddynt, a bod y staff yn gwrtais gyda chleifion ac yn eu trin â pharch a thosturi. Roedd tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cadw cofnodion a phrosesau archwilio yn dda.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o strwythurau rheoli cadarn a gweld bod llinellau atebolrwydd ac adrodd yn eu lle. Roedd aelodau o'r tîm rheoli hefyd ar gael ac roedd modd mynd atynt yn hawdd ar y ddwy ward. Mae angen gwneud ychydig o waith i sicrhau bod y dogfennau'n adlewyrchu dull o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Canfuwyd materion gennym o ran amseroldeb atgyfeiriadau'r Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid, ac a oeddent yn cael eu cwblhau'n gywir. Dywedodd y staff y buom yn siarad â nhw y byddent hefyd yn elwa o gael hyfforddiant ychwanegol ar bynciau fel gofal pobl sydd â dementia, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag colli Rhyddid.

### Sicrwydd ar unwaith

Pan nodwyd gennym unrhyw risg i ddiogelwch y claf yr oedd angen gweithredu ar unwaith i'w gwella, cyflwynwyd llythyron gennym i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2016-17, cyflwynwyd dau lythyr sicrwydd ar unwaith gennym i'r bwrdd iechyd. Roedd y rhain mewn ymateb i faterion a godwyd yn ein harolygiadau yn ysbytai Treffynnon, Glannau Dyfrdwy a Glan Clwyd. Fel y nodwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'r materion hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- Amseroldeb asesiadau'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (Treffynnon a Glannau Dyfrdwy)
- Bandiau adnabod ar arddyrnau cleifion (Glan Clwyd)
- Gweithdrefnau cyffuriau a reolir (Glan Clwyd)
- Oedi wrth gofnodi ar Siart Meddyginiaeth Cymru Gyfan achos o ragnodi meddyginiaeth angenrheidiol reolaidd i glaf a oedd â chyflwr hirdymor (Glan Clwyd)
- Oedi wrth roi matres sy'n lleddfu pwysau i glaf, er ei fod wedi cael ei asesu o fod mewn perygl o ddatblygu manau gwasgedd (Glan Clwyd).

Ym mhob un o'r achosion uchod, bu i AGIC gael ymatebion amserol gan y bwrdd iechyd yn rhoi sicrwydd digonol ei fod wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

## 7. Llywodraethu

### Gwaith ar y cyd rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Yn gynnar yn 2017, cynhaliwyd adolygiad ar y cyd gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau llywodraethu mewn ymateb i waith blaenorol a wnaed yn ystod 2013, 2014 a 2015 yn y drefn honno. Bu i'r adolygiad ystyried y themâu gwreiddiol o adolygiad 2013, yn ogystal â materion sydd wedi codi ers hynny. Diben gwaith yr adolygiad oedd:

- rhoi eglurhad ar a yw'r bwrdd iechyd yn medru profi ei fod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol
- cynnig asesiad y cytunwyd arno i helpu'r bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru wrth sicrhau bod buddion dinasyddion a chleifion yn cael eu diogelu
- cyflawni ein cyfrifoldebau fel cyrff adolygu allanol i edrych ar gynnydd a phroblemau heb eu datrys, a'u hadrodd arnynt mewn modd sy'n glir ac agored
- cefnogi gwelliannau a helpu wrth wneud unrhyw weithgareddau eraill y mae eu hangen i newid pethau.

## 8. Ymgysylltiad

Yn ystod 2016-17, bu i reolwr perthnasau AGIC gynnal cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd. Mae perthnasau da wedi'u meithrin, ac mae gwybodaeth wedi cael ei rhannu a'i chyfnewid. Lle bo angen, roedd trafodaethau ynghylch unrhyw sicrwydd ychwanegol yr oedd ei angen yn dilyn arolygiadau neu broblemau roedd wedi cael eu codi gyda'r bwrdd iechyd.

Mae rheolwr perthnasau AGIC hefyd wedi bod i nifer o bwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn ystod 2016-17.

Yn gyffredinol, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithredu mewn modd ymatebol i unrhyw faterion a godwyd gan AGIC, ac mae ansawdd ei ymatebion wedi bod yn foddhaol.

Bu i Brif Weithredwr AGIC gwrdd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod mis Mai 2016.

## 9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

### Arolygiadau o Ysbytai

1. <a href="#">Ysbyty Glan Clwyd</a>	15 Tachwedd 2016
2. <a href="#">Ysbytai Treffynnon a Glannau Dyfrdwy</a>	15 Tachwedd 2016
3. <a href="#">Ysbyty Penrhos Stanley</a> (arolygiad dilynol)	27 Mawrth 2017

### Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

4. <a href="#">Bron Meirion, Stryd y Castell, Penrhyndeudraeth, LL48 6AL</a>	10 Ionawr 2017
5. <a href="#">Meddygfa Minfor, Heol y Parc, Abermo, LL42 1PL</a>	25 Ionawr 2017
6. <a href="#">Meddygfa Forge Road, Ffordd yr Efail, Southsea, Wrecsam, LL11 5RR</a>	22 Chwefror 2017
7. <a href="#">Meddygfa Bryn Darland, 53 Stryd Fawr, Coed-poeth, Wrecsam, LL11 3SA</a>	14 Mawrth 2017

### Arolygiadau Deintyddol

8. <a href="#">Practis Deintyddol Rosehill, Stryd Rosehill, Conwy, LL32 8LD</a> (arolygiad dilynol)	4 Ebrill 2016
9. <a href="#">Meddygfa Deintyddol West End, 53 Stryd Fawr, Llangefni, LL77 7NA</a>	13 Medi 2016
10. <a href="#">Clinig Deintyddol Valley, 2 Teras Boston, Caergybi, LL65 3DU</a>	22 Tachwedd 2016
11. <a href="#">Practis Deintyddol Glan Dŵr, 17 Teras Mona, Cricieth, LL52 0HG</a>	19 Ionawr 2017
12. <a href="#">Meddygfa Deintyddol Amlwch, 14 Stryd Salem, Amlwch, LL68 9BP</a>	31 Ionawr 2017
13. <a href="#">MyDentist, Porthaethwy, Sir Fôn, LL59 5EA</a>	14 Mawrth 2017
14. <a href="#">Practis Deintyddol Penmaenmawr, Neuadd Feddygol, Pant yr Afon, Penmaenmawr, Conwy, LL34 6BA</a>	21 Mawrth 2017

### Arolygiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

15. <a href="#">Ysbyty Glan Clwyd</a>	24 Awst 2016
---------------------------------------	--------------

### Arolygiadau Anabledd Dysgu

16. <a href="#">Tan y Coed, Ysbyty Bryn y Neuadd</a>	22 Mehefin 2016
17. <a href="#">Ysbyty Bryn y Neuadd</a>	22 Mehefin 2016
18. <a href="#">Foelas, Ysbyty Bryn y Neuadd</a>	23 Mehefin 2016

### Arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

19. <a href="#">Uned Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd</a> (dau ymweliad)	5 Rhagfyr 2016
21. <a href="#">Ysbyty Cefni</a>	14 Chwefror 2017

### Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl

22. <a href="#">Uned Tŷ Llywelyn, Ysbyty Bryn y Neuadd</a> (arolygiad dilynol)	5 Rhagfyr 2016
23. <a href="#">Ysbyty Cefni</a>	14 Chwefror 2017

### Adolygiad ar y cyd

24. <a href="#">Trefniadau Llywodraethu Betsi Cadwaladr</a>	Chwefror 2017
---	---------------